Adroddiad i'r:	Cyngor
Dyddiad y cyfarfod:	6 Gorffennaf 2021
Swyddog Arweiniol	Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd
Awdur yr Adroddiad:	Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Kath Jones, Gweinyddwr Pwyllgorau
Teitl	Amserlen Bwyllgorau 2022

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys amserlen bwyllgorau ddrafft ar gyfer 2022.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo amserlen ar gyfer 2022 er mwyn gallu cadarnhau trefniadau cyfarfod ac adnoddau, cyhoeddi'r amserlen a llenwi dyddiaduron yr Aelodau.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r amserlen bwyllgorau ar gyfer 2022, yn unol ag atodiad 1.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Mae'r amserlen ddrafft ar gyfer 2022 yn amgaeedig fel atodiad 1 ac mae hefyd yn cynnwys eglurhad fesul pwyllgor o'r ffactorau sydd y tu ôl i nodi dyddiadau addas ar gyfer pob cyfarfod.

5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae cymeradwyo amserlen bwyllgorau yn ganolog i weithrediad y systemau democrataidd a phwyllgora sy'n elfennau hanfodol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac sy’n cyfrannu at flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae costau cynnal system pwyllgorau yn cael eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol ond fe wnaeth y Cyngor ymrwymiad yn 2015, drwy ei broses Rhyddid a Hyblygrwydd, i leihau nifer y cyfarfodydd pwyllgor a oedd yn cael eu cynnal ar y pryd i arbed costau cysylltiedig. Gall gwasanaethau ar draws y Cyngor gyfrannu at y cyfarfodydd a gynhwysir yn yr amserlen, fel arfer trwy gyfrannu gwybodaeth, adroddiadau ac amser swyddogion.

7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o’r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

7.2. Mae'r amserlen flynyddol o gyfarfodydd yn broses sefydledig ac yn cyflawni nodau’r ddeddfwriaeth les a chydraddoldeb. Y prif ‘ddefnyddwyr gwasanaeth’ yw aelodau'r pwyllgorau a'r swyddogion ategol, er bod y wasg a'r cyhoedd hefyd yn gallu mynychu'r mwyafrif o gyfarfodydd, neu'n gallu gwylio cyfarfodydd gwe-ddarlledu ar-lein. Mae lefel y diddordeb neu’r ymgysylltiad ag unigolion neu grwpiau'n debygol o ddibynnu i raddau helaeth ar y pwnc o dan ystyriaeth.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae amserlen bwyllgorau 2022 yn seiliedig ar y fframwaith presennol a gymeradwywyd gan y Cyngor ar gyfer cyfarfodydd. Ymgynghorwyd â’r swyddogion sy’n cefnogi gwaith y gwahanol bwyllgorau a phanelau ynghylch yr amserlen bwyllgorau, i nodi dyddiadau posibl ar gyfer cyfarfodydd.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Byddai methu â chadarnhau'r amserlen yn cael effaith andwyol ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Atodiad 12 Deddf Llywodraeth Leol 1972